

**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

Cyflawni ein Strategaeth Gorfforaethol 2015/20 drwy'r  
**Cynllun Galluogi Cymunedau ac Adfywio**  
**2015 - 2020**



## CYNNWYS

1. Cyflwyniad
2. Adnoddau naturiol - adeiladu dealltwriaeth, newid ein ffordd o fyw  
Materion allweddol i gymunedau yng Nghymru
3. Blaenoriaethau Corfforaethol
4. Sicrhau Canlyniadau  
Beth ydym ni eisiau ei gyflawni?  
Sut fyddwn ni'n cyflawni ein nod?  
Gweithio gydag eraill  
Y sefyllfa ar hyn o bryd
5. Ein sylw yn ystod y pum mlynedd nesaf
6. Monitro a gwerthuso
7. Adolygu ein gwaith
8. Cyfathrebu

Atodiad 1 - Coetiroedd a Chi / Mynediad

Atodiad 2 - Cyfle

## Cyflwyniad

Rydym ni i gyd eisiau byw mewn gwlad lle mae pawb yn deall, yn gwerthfawrogi ac yn gwarchod ein hadnoddau naturiol rhyfeddol, ein tirweddau a'n diwylliant unigryw. Diben craidd Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau fod popeth y byddwn yn ei wneud yn helpu i droi'r weledigaeth hon yn wirionedd. Allwn ni ddim gwneud hynny ar ein pen ein hunan. Mae cydweithredu – cynnwys a nerthu ein dinasyddion, ein cymunedau, defnyddwyr ein gwasanaethau a'n partneriaid – yn ganolog i'r ffordd rydym ni'n gweithio.

Gyda'n gilydd, byddwn yn nodi blaenoriaethau. Byddwn yn rhannu gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau. Byddwn yn gwrando ac yn dysgu gyda'n cymunedau. A, gyda'n gilydd, byddwn yn datblygu atebion cynaliadwy a chost effeithiol a fydd yn ein helpu i wneud Cymru'n lle gwell.

Mae'r Cynllun Galluogi ac Adfywio Cymunedau hwn yn gosod ein amcanion uchelgeisiol ar gyfer y gwaith hynny. Mae'r Cynllun Gweithredu sydd i'w ganlyn yn dangos gweithrediadau manwl.

Ystyr '**cymunedau**' yw:

- cymunedau mewn mannau daearyddol - gwledig a threfol – lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae, a
- chymunedau o ddiddordebau, gweithgareddau a gwerthoedd cyffredin

Ystyr '**adfywio**' yw rhaglenni gwaith a gweithgareddau sy'n arwain at

- amgylcheddau gwell
- cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ac i gael gwaith
- gwell iechyd a lles

Rydym ni'n defnyddio diffiniad y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol o **les**: '*sut rydym ni'n gwneud fel unigolion, fel cymunedau ac fel cenedl a pha mor gynaliadwy fydd hynny yn y dyfodod... Mae'n cynnwys ... meysydd megis iechyd, perthynasau, addysg a sgiliau, beth ydym ni'n ei wneud, lle rydym ni'n byw, ein harian, yr economi, llywodraethiant, yr amgylchedd a mesurau o 'les personol' (asesiadau unigolion o'u lles nhw eu hunain).*



Mae cwmpawd y Cynllun Galluogi'n eang – mae'n cynnwys y ffordd rydym ni'n:

- rhedeg ein busnes ac yn galluogi eraill i ddefnyddio'r tir rydym ni'n ei reoli i gyflawni gwahanol fuddion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol (rydym ni'n rheoli'n uniongyrchol 7% o arwynebedd tir Cymru – llawer ohono ger lle mae pobl yn byw ac yn gweithio: 120,000 ha o goetir, 42 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol a 5 Canolfan Ymwelwyr. Rydym ni hefyd yn dylanwadu ar reolaeth ardaloedd gwarchoddedig – 23% arall)
- cynghori a chefnogi eraill i gyflawni buddion tebyg, eang, i gymunedau ledled Cymru.

Mae'r gwaith sydd ei angen i gyrraedd nodau cyffredinol Llywodraeth Cymru yn cael ei ddisgrifio yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* ac yn y *Bil Amgylchedd* ac ym mlaenoriaethau presennol Llywodraeth Cymru – yn enwedig y *Strategaeth Tlodi Plant*, y *Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi*, *Fframwaith Adfywio Lleuedd Llewyrchus Llawn Addewid<sup>1</sup>* a *Choetiroedd i Gymru*.

Mae cysylltiad agos rhwng y Cynllun hefyd â'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Galluogi Addysg a Sgiliau Sector ac yn ein Cynllun Galluogi Hamdden a Mynediad Awyr Agored – ac â'n Strategaethau Cyfathrebu, Menter a Chaffael. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r rhain ac mae llawer o'r nodau a'r gweithrediadau'n pontio.

Bydd ein gwaith gyda chymunedau'n cael eu hystyried yn rhan o'r fframwaith ehangach ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol lle mae buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn cael eu hystyried a'u mireinio fel rhan o'r cyfan, gan gofio am nodweddion, anghenion a phroblemau lleol. Bydd y gyfres o Gynlluniau Galluogi Da i Bobl yn ffurfio ac yn dylanwadu ar rai o agweddau a blaenoriaethau cymdeithasol y Cynlluniau Sail Ardal. Bydd cynllunio gofodol yn elfen hanfodol o hyn.

Mae yna gyfrifoldebau statudol arnom ni o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac rydym yn gweithio gyda Diverse Cymru i ddatblygu Asesiad Effeithiau Cydraddoldeb manwl ar gyfer y Cynllun hwn.

## 2. Adnoddau naturiol: adeiladu dealltwriaeth, newid ein ffordd o fyw

Er mwyn sicrhau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn dal i elwa o'n hadnoddau naturiol cyfoethog mae'n rhaid i ni leihau anghydraddoldeb a newid sut rydym ni'n byw ac yn defnyddio pethau. Mae hyrwyddo dealltwriaeth a chreu mwy o gysylltiadau rhwng pobl a'r byd o'u cwmpas yn gam allweddol i gyflawni hynny. Dengys ymchwil, pan fydd cymunedau'n cysylltu â'u manau gwyrdd lleol a phan mae'r manau gwyrdd yn cael eu cyfuno'n gyflawn â'r amgylchedd adeiliedig - fod iechyd a lles pobl, bywyd gwylt a chynefinoedd ar eu hennill yn uniongyrchol. Gall manau gwyrdd helpu i ffurfio cydlynid cymdeithasol, cynnig cyfleoedd i ddatblygu a dysgu sgiliau yn ogystal â helpu i leihau effeithiau newid hinsawdd, llifogydd a llygredd aer. Mae rheoli ein

---

<sup>1</sup> Mae'r Fframwaith yn rhoi cyfrifoldeb penodol ar Cyfoeth Naturiol Cymru i 'gadw cysylltiad agos â chymunedau lleol i ganfod y cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw.'

mannau gwyrdd a'n coetiroedd - a chynllunio'n ofalus i greu mannau gwyrdd newydd - hefyd yn cefnogi cyflogaeth, menter a buddsoddiadau mewnol.

Dangosodd mentrau diweddar, megis rhaglenni Parc Rhanbarthol y Cymoedd a WECAN<sup>2</sup> y gall rheoli adnoddau naturiol yn gyfun gyfrannu'n sylweddol at adfywio cymunedol a threchu tlodi. Gan weithio gydag eraill, byddwn yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd wrth ddarparu'n strategol.

### Problemau allweddol cymunedau yng Nghymru

**Anghydraddoldeb iechyd:** erys iechyd yn anghyfartal o fewn a rhwng cymunedau Cymru. Amcangyfrifir fod segurdd corfforol yn costio tua £650 miliwn y flwyddyn i Gymru<sup>3</sup> a bod yna wahaniaeth dramatig mewn hyd oes pobl y gwahanol Awdurdodau Unedig e.e. 57.1 blynedd ym Mlaenau Gwent a 68.2 blynedd yn Sir Fynwy. Bydd un o bob pedwar o oedolion yng Nghymru'n dioddef o broblemau neu salwch iechyd meddwl rywbryd yn ystod eu hoes ac amcangyfrifir fod hynny'n costio £7.2 biliwn i Gymru.

**Mynediad at fannau gwyrdd a glas naturiol:** mae'r rhain yn cynnwys parciau, gwrychoedd, coed, coetiroedd, afonydd a phyllau a thraethau. Hyd yn oed yn ein gwlad 'werdd' ni, nid pawb sy'n gallu mynd ar fannau gwyrdd i gynnal iechyd a lles corfforol a meddyliol. O'r 16 o awdurdodau lleol a adroddodd yn 2010, dim ond 56% o'u poblogaeth oedd yn cyrraedd y safon o allu cyrraedd man gwyrdd o fewn 300 metr o'u cartrefi. Gall cysylltiad goddefol â man gwyrdd arwain at adfywiad seicolegol a chorfforol, gostwng pwysedd gwaed a lefelau stres<sup>4</sup>. Gall datblygu rhwydweithiau o lwybrau, coetiroedd trefol a seilwaith gwyrdd eraill er mwyn gwella ansawdd a hygyrchedd yr amgylchedd leol oll chwarae rhan bwysig mewn gwella iechyd a lles pobl Cymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn caniatáu i eraill gynnal digwyddiadau a gweithgareddau o bob math ar y coetiroedd a'r gwarchodfeydd y mae'n eu rheoli. Mae'n rhaid i ni weithio gyda chymunedau i ddod i ddeall yn well y mathau o fynediad sydd eu hangen ac sy'n debyg o gael eu defnyddio ac yna hyrwyddo eu datblygu yn y mannau iawn.

**Tlodi:** Mae yna lawer iawn o dlodi ac anghyfartaledd yng Nghymru, mae llawer o bobl ar gyflogau isel<sup>5</sup> a llawer hefyd yn economaidd segur<sup>6</sup>. O ganlyniad, mae 31% o blant Cymru'n byw mewn tlodi cymharol ac mae'n cael ei gydnabod nad yw'r ffigur hwn yn debyg o ostwng yn y tymor byr. Mae cynnydd mewn salwch cronig yn gwaethygu'r

---

<sup>2</sup> Prosiect yn cael ei ariannu gan IVB Interreg oedd WECAN i wneud y gorau o'r amgylchedd fel gyrrwr cymdeithasol ac economaidd ar gyfer adfywio cynaliadwy yng nghymoedd y De (ac mewn rhanbarthau eraill yn Ewrop).

<sup>3</sup> *Dringo'n Uwch: Creu Cymru Fywiog* gan Lywodraeth Cymru 2009

<sup>4</sup> *Preference for Nature in Urbanized Societies* gan Van den Berg et al, dyfynnir yn *Benefits of Green Infrastructure* gan Forest Research Hydref 2010

<sup>5</sup> Yn ystod y tair blynedd hyd at 2011/12, roedd 23% o bobl Cymru'n byw mewn catrefi ag incwm isel. Ffynhonnell: yr Adran Waith a Phensiynau

<sup>6</sup> Roedd 26.5% o'r boblogaeth oedran gweithio'n economaidd segur yn 2012 – mwy nag yn yr Alban ac unrhyw ranbarth o Loegr. Ffynhonnell: Arolwg y Llafurlu, y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol

problemau hyn. Er bod cred gyffredin mai yn y trefi y mae tlodi, mae tlodi gwledig hefyd yn broblem bwysig.

**Newid hinsawdd a pherygl llifogydd:** Bydd addasu a lliniaru effeithiau newid hinsawdd yn y dyfodol yn dangos sut a pham y bydd yn rhaid i ni gysylltu â chymunedau. Er bod perygl llifogydd yn fygythiad cyson, mae'n anodd ei ragweld - mae 11% o holl eiddo Cymru mewn perygl o lifogydd o afonydd neu'r môr. Bydd newidiadau yn ein hinsawdd, megis stormydd mwy geirwon a hafau a gaeafau gwlypach, yn cynyddu'r perygl.

**Llygredd aer:** Gall ansawdd aer gwael ac anadlu gronynnau mân yn ddwfn i'r ysgyfaint dros gyfnod hir effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a gosod baich trwm ar y gwasanaeth iechyd. Yn 2009, roedd y Pwyllgor ar Effeithiau Meddygol Llygredd Aer yn amcangyfrif fod llygredd aer yn achosi o leiaf 29,000 o farwolaethau cynnar yn y DU. Ac roedd y Comisiwn Archwilio Amgylcheddol yn amcangyfrif fod y gost i iechyd o ansawdd aer gwael yn y DU yn amrywio o £8.5 i £20 biliwn y flwyddyn sydd cymaint â chostau economaidd gordewdra. Dangosodd ymchwil diweddar fod allyriadau cerbydau'n lladd mwy yn y DU na damweiniau ffordd ac ysmegu goddefol gyda'i gilydd. Mae llygredd aer yn amharu ar fywyd gwyllt – mae trothwy ar safleoedd gwarchodedig na ddylid mynd heibio iddo o ran llygryddion o dan y gyfarwyddeb cynefinoedd, ond sy'n cael ei dorri'n aml.



### 3. Blaenoriaethau Corfforaethol

Daw'r rhan fwyaf o'n gwaith gyda chymunedau i dalu sylw i'r problemau allweddol hyn o dan adran 'Da i Bobl' ein Cynlluniau Busnes a Chorfforaethol. Fodd bynnag, mae gweithgareddau a rhaglenni hefyd yn 'Dda i Fusnes' ac yn 'Dda i'r Amgylchedd' ac mae yna fuddion sy'n pontio.

Mae ein [Cynllun Corfforaethol 2014 - 2017](#) yn cynnwys yr ymrwymiadau canlynol:

- Ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau a risgiau amgylcheddol
- Ysgwyddo ein cyfrifoldebau i helpu sicrhau fod y cyhoedd yn ddiogel yn ein coedwigoedd, yn ein Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a gyda'r amddiffynfeydd llifogydd rydym yn eu rheoli.
- Gweithio gyda sefydliadau eraill i ddatblygu rhaglen o brosiectau, gan gynnwys prosiect 'Cynefin' Llywodraeth Cymru, i wella ansawdd amgylcheddol lleol ac i greu cyfleoedd i gymunedau difreintiedig.
- Gweithio gyda chymunedau lleol i gael rhagor o bobl i gymryd rhan mewn cymryd penderfyniadau'n lleol a datblygu cynlluniau ar gyfer y dyfodol drwy ddefnyddio'r egwyddor o berchnogaeth gymunedol a chyd-gynhyrchu, yn enwedig ger y tir a'r dŵr rydym ni'n eu rheoli.
- Gwneud y gorau o fuddion economaidd ein gwaith, gan ganolbwyntio'n benodol ar ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf a chymunedau eraill gyda thystiolaeth o amddifadedd.
- Datblygu ein hagweddau at wirfoddoli drwy weithio mewn partneriaeth gydag eraill a gweithio gyda'r rhwydweithiau presennol o wirfoddolwyr.
- Hyrwyddo cyfleoedd busnes newydd, datblygu ein gallu menter a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i gefnogi cynlluniau'r dyfodol, gan gynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ogystal â chyfleoedd hamdden a thwristiaeth.

### 4. Sicrhau canlyniadau

Rydym ni'n anelu at weithio mor gynhwysol â phosibl, ystyried pobl ar wahanol gyfnodau o'u bywyd, o wahanol oedran, o wahanol hil a chred, gydag anableddau a chydag unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Rydym ni wedi ymrwymo i adeiladu diwylliant sefydliadol o weithio'n agored ac yn deg gyda phartneriaid a chymunedau – rhannu cymryd penderfyniadau a chydweithio fel rhai cyfartal. Rydym ni'n cydnabod y bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i ni weithio a chynllunio'n wahanol.

Rydym ni eisiau cynnig cyfleoedd i bobl ledled y cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu. Fodd bynnag, gan fod yna anghyfartaledd o ran lefel ac ystod cyfleoedd, darpariaeth a chyfranogaeth, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn targedu adnoddau lle mae'r angen fwyaf gan gadw at yr **egwyddorion** canlynol i sicrhau bod:

- Ein gwaith gyda chymunedau'n cael ei gynnal y tu fewn i fframwaith reoli adnodd naturiol, gan gael y gorau o fuddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.
- Bod gwaith cysylltiadau cymunedol yn cael ei ddatblygu a'i ddarparu yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

- Ein bod yn defnyddio dulliau gofodol, yn seiliedig ar dystiolaeth, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar waith sydd o'r budd lluosog pennaf i bobl a chymunedau – yn enwedig y rhai yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.
- Bod *pob* aelod o staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda chymunedau a sefydliadau partner yn hyderus, yn agored ac ar delerau cyfartal, yn cael eu cefnogi gan staff sgilgar sydd ag arbenigedd o waith cysylltu â chymunedau.

### Beth ydym ni eisiau ei gyflawni?

Nod cyffredinol y Cynllun hwn yw bod:

#### Adnoddau naturiol yn gwneud mwy o gyfraniad at wella lles a chadernid cymunedau

Mae hyn yn cefnogi ein dyletswydd i 'dalw sylw i iechyd a lles cymdeithasol unigolion a chymunedau'<sup>7</sup> a bydd yn cyfrannu at:

- Gynyddu dealltwriaeth, a gofal, y cyhoedd o adnoddau naturiol – gan arwain at newid ymddygiad ac at ffyrdd mwy cynaliadwy o fyw
- Gwella tegwch cymdeithasol a chydlyniad cymunedol
- Cynyddu buddion economaidd i bobl a chymunedau – lleihau lefelau tlodi

### Sut fyddwn ni'n cyflawni ein nod?

Byddwn yn cyflawni hyn drwy gydweithio gydag eraill i:

- Fod yn batrwm o gorff cyhoeddus yn hyrwyddo ac yn cael y mwyaf posibl o gyfleoedd ar gyfer menter, datblygu sgiliau a hyrwyddo lles drwy'r tir rydym yn ei reoli ac yn dylanwadu arno ac yn y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes (*fel corff cyhoeddus a rheolwr tir*)
- Cynyddu cadernid cymunedol o ran effeithiau llygredd, llifogydd a newid hinsawdd (*fel rheoleiddiwr*)
- Cynyddu'r ddarpariaeth, a chyfranogiad cymunedol, wrth reoli mannau gwyrdd naturiol hygyrch (*fel hyrwyddwr*)
- Hyrwyddo cyfraniad mannau gwyrdd a choed fel asedau naturiol cadarn a hyblyg sy'n cefnogi lles, economïau lleol ac yn lliniaru newid hinsawdd (*fel hyrwyddwr ac fel ymgynghorydd statudol*)

### Sut y byddwn ni'n gweithio gydag eraill

Mae gweithio gyda'n cwsmeriaid a chymunedau'n weithgaredd craidd Cyfoeth Naturiol Cymru. Gan gydnabod fod gan sefydliadau a grwpiau eraill arbenigedd penodol mewn cysylltu â chymunedau ac mewn gwaith datblygu cymunedol, byddwn yn galluogi ac yn cefnogi eraill i ddarparu prosiectau a rhaglenni pan mai hyn fydd fwyaf addas.

Byddwn yn dylunio ein adnoddau cysylltu â chymunedau fel a ganlyn:

- **Ar y tir rydym ni'n ei reoli**

Byddwn yn sicrhau fod gennym staff sgilgar gyda'r arbenigedd sydd ei angen i gysylltu gyda chymunedau, y trydydd sector ac â darpar bartneriaid - gan alluogi a chefnogi

<sup>7</sup> Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013



gwaith gan eraill. Byddwn yn cynnwys ac yn adeiladu ar yr arbenigedd sy'n bodoli'n barod ac yn ffurfioli hynny fel ein ffyrdd arferol o gynnal busnes drwy ddarparu hyfforddiant ac arolygaeth rheolaidd a fydd yn sefydlu diwylliant o ymarfer cysylltu gorau. . Byddwn yn darganfod yr aelodau o staff sydd â'r doniau ar gyfer, a'r diddordeb yn, y math yma o waith; byddwn yn eu datblygu a fe fyddan nhw'n cefnogi ac yn cynghori eraill, gan sicrhau ymarfer da a chyson ledled Cymru. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau sydd â sgiliau datblygu cymunedol arbenigol yn ôl y gofyn.

### • Rhywle arall

Byddwn yn arwain pan fydd yn amlwg fod angen ymyrryd a darparu'n uniongyrchol ac mai ni fyddai orau ar gyfer hynny. Byddwn yn gweithio i gynorthwyo pan fydd ein cyfraniad mewn partneriaeth neu rwydwaith ehangach yn sicrhau gwell darpariaeth o ganlyniadau strategol.

Fis Gorffennaf 2013, daethom yn rhan o'r [Eqwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu Cyhoeddus](#). Rydym yn ail gadarnhau ein hymrwymiad i'r ffordd yma o ddarparu ein prosiectau, ein rhaglenni a'n gwasanaethau.

## 5. Ein sylw yn ystod y pum mlynedd nesaf

Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn canolbwyntio'n hymdrechion ar sicrhau ein bod yn darparu ar gyfer y bobl a'r lleoedd a fydd yn elwa fwyaf, gan sicrhau bod ein gweithgareddau'n cefnogi'r nod cyffredinol. Mae Cynllun Gweithredu'n cyd-fynd â'r Cynllun Galluogi hwn, maen dangos ein blaenoriaethau ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru i'n helpu ni i gynllunio a darparu'n gwaith.

Mae'r gweithgareddau sy'n gallu helpu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn cynnwys:

- Gweithio'n ddiwyd i alluogi eraill i ddefnyddio'r tir rydym yn ei reoli – datblygu a hyrwyddo'n cynllun mynediad cyhoeddus presennol, Coetiroedd a Chi<sup>8</sup>, a'i gyflwyno fel cynllun ledled Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Gweithio i sicrhau fod ein cymunedau'n gwybod ac â rhan weithgar mewn lleihau effeithiau llifogydd a digwyddiadau o lygredd.
- Datblygu a gweithredu'n Strategaeth Caffael gyda budd cymunedol yn ganlyniad allweddol.
- Sicrhau fod cymunedau'n cael rhan briodol mewn cynllunio adnoddau naturiol – gan gynnwys mewn perthynas â'r tir rydym yn ei reoli a'r cynlluniau peilot rheoli adnoddau naturiol (Tawe, Rhondda, Dyfi)
- Gweithio i sicrhau fod cymunedau'n deall, yn gwerthfawrogi ac yn gwarchod eu hamgylchedd – gan leihau digwyddiadau o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Hyrwyddo darparu a chyfranogaeth y gymuned mewn mannau gwyrdd croesawgar ac o ansawdd uchel ble mae pobl yn gweithio ac yn byw – hyrwyddo'r defnydd o

<sup>8</sup> Cynllun cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru yw Coetiroedd a Chi i hyrwyddo mynediad i'r tir rydym yn ei reoli ar gyfer gweithgareddau, digwyddiadau, prosiectau a mentrau ar yr Ystâd Coetiroedd – gweler Atodiad 1.

safonau gwrthrychol (e.e. Gwobrau'r Fanner Werdd a'r Fanner Las) i asesu fod darpariaeth y manau gwyrdd yn addas at eu diben.

- Hyrwyddo rôl manau gwyrdd a choed mewn darparu manteision iechyd a lles - lleihau effeithiau newid hinsawdd, cysylltu pobl gyda natur, cael gwared ar lygryddion a llwch o'r aer, cadw carbon, annog buddsoddiadau mewnol, gostwng lefelau trosedd.
- Darparu cyngor a chanllawiau ymarfer gorau ar faterion cynllunio a Chynlluniau Datblygu Lleol – hyrwyddo datblygu a defnyddio Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer darparu a diogelu seilwaith gwyrdd.
- Datblygu'n cynllun Cyfle<sup>9</sup> (cefnogi rhaglen Esgyn / Lift Llywodraeth Cymru) yn cynnig lleoliadau gwaith, lleoliadau graddedigion, gwirfoddoli, prentisiaethau
- Dysgu drwy ffyrdd arloesol ac ymarfer gorau o weithio gyda chymunedau (Cymunedau'n Gyntaf, Dewch y Tu Allan, Coetiroedd a Chi, Cynefin) i sefydlu cymuned o ymarfer cyswllt gorau o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, gydag arweinyddion ymroddedig.
- Cydlynu, cefnogi a thystiolaethu'n cyfraniad at ddatblygu a darparu Cynlluniau Lles ledled Cymru fel aelodau o Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus.

### 6. Monitro a Gwerthuso

Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso'r Cynllun Galluogi hwn a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, gan ddefnyddio dull Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau. Mae'r dull yma'n cynnwys canfod bylchau mewn tystiolaeth data ac awgrymu ffyrdd y gellid eu llenwi.

Mae manylion y cynigion Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau yn y ddogfen ynghlwm: *Cynllun Galluogi Cymunedau ac Adfywio – Cynllun Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau.*

### 7. Adolygu'n gwaith

Yn ogystal â monitro a gwerthuso'n cyfraniad trwy'n Cynllun Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau, byddwn yn adolygu'r Cynllun hwn yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn addas at ei ddiben. Mae hynny'n arbennig o bwysig yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth Lles Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Amgylchedd sydd ar fin dod.

Byddwn hefyd yn gofyn ac yn gweithredu ar adborth oddi wrth gwsmeriaid fel rhan greiddiol ac arferol o ddarpariaeth ein gwasanaeth, yn cynnal arolygon boddhad cwsmeriaid ac yn cyhoeddi canlyniadau'r rhain gyda chynlluniau gwella yn ôl y gofyn.

### 8. Cyfathrebiadau

Bydd y Cynllun Galluogi'n cael ei hyrwyddo'n frwd o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru ac i sefydliadau a phartneriaid allanol. Mae tasgau i gefnogi'r gwaith hwn yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu.

---

<sup>9</sup> Mae cynllun Cyfle Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi datblygu gweithlu sgilgar i Gymru ac yn cynnig cyfleoedd lleoliad am brofiad gwaith, gwirfoddoli, astudiaeth tan neu ôl raddedig, prentisiaethau – gweler Atodiad 2

## Atodiad 1 – Coetiroedd a Chi

Cynllun cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru yw Coetiroedd a Chi er mwyn hyrwyddo, rheoli a hybu mynediad cyhoeddus i Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru ar gyfer ystod eang o weithgareddau, prosiectau a mentrau.

Trwy'r cynllun rydym yn galluogi eraill i gynnal a gwireddu llawer o'n nodau strategol. Mae'n allweddol ar gyfer gallu cyflawni llawer o'r gwaith pontio yn y Cynllun Corfforaethol – yn bennaf y rhai yn yr adran 'Da i Bobl' (e.e. 'gweithio gyda chymunedau lleol i gael rhagor o bobl i gymryd rhan mewn penderfyniadau lleol, a datblygu cynlluniau'r dyfodol gyda'n gilydd gan ddefnyddio egwyddor perchnogaeth a chyd-gynhyrchu cymunedol, yn enwedig yn agos at dir a dŵr rydym yn eu rheoli') ond hefyd y rhai sy'n 'Dda i'r Amgylchedd' ac yn 'Dda i Fusnes'. Bydd data'r cynllun o help wrth adrodd yn erbyn mesurau perfformiad.

Cyn hir, bydd yn cael ei ymestyn i'r holl dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, y Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, asedau llifogydd) a bydd y cynllun yn cael ei ail frandio a hyrwyddo fel 'Mynediad' yn 2015.

## Atodiad 2 - Cyfle

Cynllun ymbarél cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru yw Cyfle, sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer cydlynu a rheoli lleoliadau gwaith, gwirfoddoli, lleoliadau graddedigion a chyrsiau atodol a phrentisiaethau. Bydd yn cynnig man mynediad hawdd, sengl yn canolbwyntio ar y defnyddiwr, ar gyfer pobl gyda diddordeb mewn treulio amser yn gweithio gyda staff mewn gwahanol fannau.